

Adroddiad Llawn ar gyfer Adeiladau Rhestredig



Disgrifiad Cryno o Adeilad Rhestredig:

Rhif Cyfeirnod
87783

Rhif yr Adeilad

Gradd
II

Statws
Dynodedig

Dyddiad Dynodi
23/11/2018

Dyddiad Diwygio

Enw
Hen Stablau yn The Poplars

Cyfeiriad

Lleoliad

Awdurdod Unedol
Abertawe

Cymuned
Pontlliw and Tircoed

Tref

Ardal

Dwyreiniad
261167

Gogleddiad
200180

Ochr o'r Stryd

Lleoliad

Oddi ar ochr ddeheuol tramwyfa breifat yn arwain at 'The Poplars', a gyrhaeddir o ochr ddwyreiniol Swansea Road, ac a nodir gan byrth a phorthordy adfeiliedig ym mhen deheuol Pontlliw.

Disgrifiad

Dosbarthiad bras
Domestig

Cyfnod

Cyfnod

Fe'i hadeiladwyd tua 1890 fel bloc stablau i 'The Poplars', ystad wledig fach a chartref y diwydiannwr lleol Friedrich William Dahne. Cofnodir iddo hysbysebu am 'Working Housekeeper' ym mis Hydref 1899 a dangosir y tŷ a'r gerddi am y tro cyntaf ar 2il argraffiad map yr AO dyddiedig 1900. Cyfeirir ato fel 'Attractive modern country mansion' ar adeg ei werthu yn 1913. Mae'n tebyg erbyn hynny roedd F Dahne wedi marw am fod y tŷ yn cael ei feddiannu (ym mis Hydref 1914) gan fab Friedrich, sef David.

Tu allan

Stablau, o frics melyn a choch cymysg, â tho llechi, teils crib clai, cynn simnai o frics a ffenestri croeslathog pren â phennau o frics coch a siliau o gerrig. Bondo bargodol dwfn â thrawslathau terfyn wedi'u mowldio. Cynllun siâp 'L' sy'n wynebu iard goblog amgaeedig ar yr ochr ogledd-ddwyreiniol. Un llawr gydag atig i'r adain orllewinol. Yn arwain o'r iard ceir drws dwbl llydan â drysau llithro pren yng ngwedd ogleddol yr adain ddeheuol. Adain orllewinol â ffenestr ganolog gyda drws estyllog taflod dalcennog uwch ei phen a drws i'r ochr. Y wedd ogleddol gyda phâr o ffenestri ar y llawr gwaelod a ffenestr ganolog fyrrach uwch eu pennau. 2 agoriad yn y wedd orllewinol. Pâr o ffenestri i'r wedd ddwyreiniol.

Tu mewn

Yn agored i'r wedd ddeheuol, mae corau rhydd â ffitiadau gwreiddiol ac ystafell harneisiau (nas archwiliwyd) a thafnod ar y llawr 1af i'w gweld o hyd yn yr adain orllewinol.

Rheswm dros Ddynodi

Wedi'u rhestru am eu diddordeb pensaernïol fel stablau yn dyddio o ddiwedd y 19eg ganrif a adeiladwyd fel rhan o ystad wledig fach 'The Poplars', sydd wedi cadw eu cymeriad gwreiddiol i raddau helaeth. Gwerth grŵp gyda 'The Poplars'.

Cadw : Adroddiad Llawn ar gyfer Adeiladau Rhestredig